Cyfres Llanbedr | Ebrill 1927 | Cyf. 27. Rhif 4.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

# Yr Ymofynydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. Y. Parch T. Oswald Williams.

## — Cynnwys. —

NODION Y GOLYGYDD.
BASGEDAID O FRIWSION.
ADGOFION HEN FEDELWR AM GYNHAEAF HENFFORDD.
YR ATHRO W. J. EVANS.
CREFYDD.
LLYTHYR.
PRIODASAU. MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

# YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

*Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.*

*Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.*



# Y Geiriadur Beiblaidd.

**Gellir cael yr uchod yn awr wedi ei rwymo yn gyflawn mewn Dwy Gyfrol hardd. . . .**

**Dwy Gyfrol—Canvas Cloth, Gilt Lettered, £2/2/- y Set.**
**Dwy Gyfrol—Quarter Levant Morocco, Gilt Lettered, £2/10/- y Set.**

**I'w cael o Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.**

# ARGRAFFWAITH.

Anfonwch eich archebion am ARGRAFFU o bob math i SWYDDFA'R "YMOFYNNYDD," LLANDYSSUL. Gwaith glan, destlus a chywir gyda'r dyfeisiadau peiriannol diweddaraf, ac am brisiau rhesymol. Sylw personol i bob ymholiad.

# T. E. Jones, & Co.

**— LLANDYSSUL. —**

**Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.**

# Cymdeithas Undodaidd Deheudir .. Cymru. ..

(Sefydlwyd yng Nghastell Nedd, 1802).

Llywydd—D. TYSUL DAVIES, Ysw., Aberdar.

— CYNHELIR —

# *Cyfarfodydd*

# *. Chwarterol y Pasc .*

— YM —

## MHANTYDEFAID

**MERCHER ac IAU, EBRILL 20 a 21, 1927.**

**Disgwylir Gweinidogion Ceredigion a Morganwg ynghyd ac eraill i fod yn bresennol, ac i gymeryd rhan yn y gwahanol gyfarfodydd. . . . . .**

*Bydd trefn y Cyfarfodydd fel y canlyn—*

**Nos Fercher,** am 6.30. Gwasanaeth a dwy bregeth.
**Bore Iau,** am 10. Pwyllgor y Gymdeithas.
**Prynhawn Iau,** am 2. Gwasanaeth a dwy bregeth.
**Hwyr Iau,** am 6. Gwasanaeth a dwy bregeth.

*Dymuna Gweinidog ac Eglwys Pantydefaid estyn gwahoddiad cynnes i'r Gweinidogion a Chynrychiolwyr yr Eglwysi i'r Cyfarfodydd hyn. Os am lety gyrrer gair mewn pryd i'r Gweinidog.*

*J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.*

Digitized by the Internet Archive
in 2025

https://archive.org/details/yr-ymofynnydd_1927-04_27_4

# *Yr Ymofynnydd.*

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. EBRILL, 1927. CYF. XXVII. RHIF 4.

## *Nodion y Golygydd.*

YR wyf yn ddiolchgar am y derbyniad gonest a gafodd y Rhifyn Coffa yn y Wasg ac am bob sylw a wnawd ohono. Ceisiais roddi y wybodaeth ddiweddaraf ar y cwestiwn heb ffafr na mympwy. Beth bynnag a fedrir ei ddywedyd am Iolo Morganwg ni ellir amau gallu naturiol a gweithgarwch diflin yr hen Saer Maen o Dre-fflemin, a chredaf fod gan y Gymdeithas y bu ganddo le amlwg yn ei chychwyn ei dyletswydd. Ni fedr anrhydeddu Coffa Iolo ond medr anrhydeddu ei hunan drwy osod i fyny yn y Llyfrgell Genedlaethol neu'r Museum yng Nghaerdydd, gerflun (bust) o wr a wnaeth gymaint a neb yn ei ddydd yn ei ffordd ei hun dros ei iaith a'i genedl. Credaf yn ddibetrus y dylasai'r Gymdeithas dalu'i dyled drwy wneuthur rhywbeth er dangos ei bod yn parchu'i hunan drwy ddangos ei pharch i goffa un o'i chychwynwyr. "Llunier i gall hanner gair."

**Rhifyn Coffa Iolo Morganwg**

* * *

O ddechreu son am wŷr mawr, naturiol cofio am un o brif wyddonwyr yr oesau a fu farw ar yr 20 o Fawrth, 1727, dau can mlynedd i eleni—Syr Isaac Newton—y seryddwr, y rhifyddwr, yr athronydd a'r mesuronydd. Fe'i ganwyd yn swydd Lincoln yn 1642 (y flwyddyn y bu Galileo farw) a dywedir ei fod yn yr ysgol yn gwahaniaethu oddiwrth ei gyd ieuenctid. Darllain llyfr, cynllunio peiriant, synfyfyrio ar rywbeth y byddai ran amlaf, ac yn 1660 aeth i Athrofa'r Drindod yng Nghaergrawnt ac yma myfyriodd Resymeg, Gwybodaeth am Oleuni a Lliw, ynghyd a chelfyddyd Rhif a Mesur. Cymaint oedd athrylith Newton fel y dywedir iddo wneuthur ei brif ddarganfyddiadau cyn cyrraedd 25 oed. Gŵyr pob un a ŵyr am Newton

**Isaac Newton**

ystori'r afal. Dywedir i afal syrthio ar ei ben ac yntau mewn myfyr yn y berllan. Ceisiodd esbonio'r paham a darganfu Ddeddf Disgyrchiant (The Law of Gravitation). Nid yw ond mynegiant o'r duedd sydd ymhopeth i dynnu at ei ganolbwynt a dyma'r gallu sy'n cydio y bydoedd a'u gilydd gan eu cadw heb chwyrnellu i unrhyw gyfeiriad.

Yr oedd yn sylwedydd craff ac un dydd gwnaeth dwll yng nghaead ei ffenestr wedi tywyllu ohono ei ystafell, gan adael tywyn haul i mewn iddi. Defnyddiodd y *prism* i hollti'r golau os iawn defnyddio'r term hollti, a deallodd fod y golau gwyn yn cael ei wneuthur i fyny o holl liwiau'r enfys. Wedi deall o hono natur goleuni dyfeisiodd y teliscop, yr yspienddrych sy'n dwyn y pell yn agos chwedl yr hen Gymro. Nid oedd ei deliscop ond chwe modfedd o hyd ond canfu drwyddo Seren Iau.

Cafodd bob anrhydedd a fedrid ei estyn iddo, Athro yn y Gelfyddyd o Rif a Mesur, Aelod o'r Gymdeithas Frenhinol, Aelod Seneddol dros y Brifysgol ac Arolygwr y Bathdy (swydd gwerth rhyw bymtheg cant y flwyddyn, ond odid) ac yn 1705 fe'i urddwyd yn Farchog.

Myfyriodd lawer yn yr Ysgrythurau ac yr oedd yn Ddiwinydd yn gystal ag Athronydd a chredaf mai teg yw cofio am ddau can mlwyddiant marw un o'n harloeswyr ni—yr hen Gristion didwyll ac un o Brif Athronwyr ei oes a'r byd a theilyngodd gael gorffwys o'i gorff yn Abaty Westminster..

Dyma'i eiriau ef ei hun a ddengys galon ostyngedig Newton,—

"Ni wn beth yr ymddangosaf i'r byd, ond i mi fy hun nid wyf ond plentyn yn chwarae ar y traeth gan ddifyrru fy hun drwy gael gafael yn awr ac yn y man am garegan lyfnach a chragen brydferthach na'r cyffredin, tra gorweddai cefnfor mawr gwirionedd yn gwbl heb ei ddarganfod o'm blaen," ac yng ngeiriau un ysgrifennydd "yr ymdeimlad o gefnfor mawr o wirionedd heb ei ddarganfod yw'r cyfraniad y sydd gan y gwyddonwr i'w ddwyn i ysbryd dyn."

Teilwng defnyddio am ei goffa bennill o waith y diweddar Eifion Wyn :—

"Gwas y Goruchaf oeddit
A'r gostyngeiddiaf un ;
Bu d'ofal am ei enw ef,
Nid am dy fri dy hun."

* * *

Dywedodd Mozart am Beethoven ac yntau'n llanc ieuanc "Sylwch arno. Gwna dwrw yn y byd ryw ddydd neu gilydd," ac yr oedd y broffwydoliaeth yn wir. Gelwir ef heddyw "The Giant of Genius." Gwyddai'r grefft o gyfansoddi a maentumir mai dau nod athrylith yw "adeiladu coffadwriaeth barhaol ac estyn y tors i'r cenedlaethau a ddaw ar ei ol er goleu'r ffordd at gynnydd." Dywedai Haydn, "Rhaid i mi beidio cyfansoddi gan adael hynyna i ddyn mwy."

**Ludwig Van Beethoven**

Dywedir yr awgryma'i enw iddo darddu o deulu yn ymwneud a garddwriaeth (Beet—gwreiddyn; Hof—gardd).

Yn 1792 daeth Haydn ar ymweliad a Bonn ac aeth Beethoven yn ddisgybl iddo gan symud i Vienna, ond tragedi ei fywyd oedd mai cerddor byddar ydoedd a chwerwodd hyn ei fywyd. Nid wyf i gerddor na mab i gerddor ychwaith ac ni fedraf ond galw sylw at ganmlwyddiant ei farw gan obeithio yr ysgrifenna rhyw gerddor erthygl deilwng am un o sêr disgleiriaf ym myd y Gân; ys dywed rhywun am dano:

"Beethoven was the greatest Musician, perhaps the greatest artist, that ever lived."

# *Basgedaid o Friwsion.*

Ayw'r ci yn greadur mwy synhwyrol na'r ceffyl? Ydyw, medd Miss Frances Pitt, awdur llyfr ar "The Animal Mind." Gwan iawn yw deall y ceffyl, medd hi. Caethwas yw i ysgogiadau afresymol. Y mae ei dymer hywaith, a'i barodrwydd i ffurfio arferion yn gwneud y ceffyl, er hynny, yn was defnyddiol i ddynion. Nid all dim ddiwygio ceffyl a fo wedi dechreu tasgu pan dreiglo deilen ar y ffordd neu pan gano aderyn yn y berth. Byr iawn yw cof ceffyl. Mae'r gaseg yn anghofio ei hebol wedi bod ar wahan am ychydig wythnosau; ac ni ddangosant arwydd o adnabod ei gilydd pan gyfarfyddont.

* * *

A all cwn ymresymu? Ychydig ddyddiau yn ol, mewn treflan ar lan Tafwys, darfu i wraig adael ei baban yn ei grud yn ei thy, y ci yn unig yn ei warchod fel arfer, ac aeth allan. Pan ddychwelodd hi, nid oedd y baban na'r ci o fewn golwg. Rhedodd i'r ardd.

Neidiodd y ci o ddrws ei dwlc, cyfarthodd ; a rhedodd yn ol at y drws. Yn y twlc yr oedd y baban yn cysgu'n drwm. Dywedodd cymydoges wrth y wraig pa beth a ddigwyddasai. Yr oedd y baban wedi dechreu cripian ar lwybr tua nant pendraw yr ardd. Dechreuodd y ci neidio o gwmpas y baban gan ei droi yn ei ol a'i dopi a'i ben hyd oni lwyddodd i'w yrru i'r twlc. Yna safodd fel gwyliedydd wrth y drws.

* * *

"Greddf," medd rhywun. Nage, rhywbeth mwy na greddf. Peth cyffredin i rywogaeth yw greddf—peth a bair i bob aelod ohoni gydsynio a chydweithredu. Nid yw cwn yn gwybod yn reddfol nad all babanod nofio. Onid yw hi yn amlwg fod y ci yn ymresymu fel hyn : "Mae'r plentyn yn myned tua'r nant ; mae'n bur debyg o syrthio iddi a boddi ; gan hynny, rhaid i mi ei rwystro." Yn wir, y mae'r "casgliad ymarferol" yn dangos nid yn unig allu i ymresymu, ond hefyd ymdeimlad o ddyledswydd.

* * *

Cred llawer fod "araf a sicr" yn ymadrodd safadwy, a bod gwaith cyflym, o raid, yn waith gwallus. Ond y mae Pwyllgor Swyddogol yn America wedi taflu amheuaeth ar yr hen gred hon. Rhoed prawf ar 500 o ymgeiswyr am swyddi dan y Llywodraeth. Gosodwyd 125 (gweithwyr cyflym) yn y dosparth cyntaf a 125 (gweithwyr araf) yn y trydydd dosparth. Caed fod y dosbarth cyntaf yn gwneud pum cymaint o waith a gwaith y trydydd dosparth ; fod saith gwall yng ngwaith y rhai araf am bob un yng ngwaith y rhai cyflym. Pwy oedd yr ynfytyn a daerodd gyntaf fod pob dyn yn gyfwerth ?

* * *

Chwithig a chwerw yw llawer o'r newydd-bethau a gynhyrchir yn America. Un o'r pethau hyn yw y mudiad a gychwynwyd yn ddiweddar gan un o weinidogion y Bedyddwyr yn New York—Dr. Fosdick. Myn efe ail sefydlu y gyffes-gell Babaidd mewn eglwysi Protestanaidd. Un o'i amcanion (medd efe) yw atal pobl rhag ymgynghori a'r gau-broffwydi a elwir *psycho-analysts*. Mae'n ddios fod disgyblion Freud, sydd yn honni y gallant "ddadansoddi eneidiau" yn gwneyd difrod mewn llawer man a bod eu hathrawiaethau yn ffiaidd ac ynfyd. Ond ffolineb yw tybied y gellir atal y difrod drwy efelychu offeiriaid Rhufain. Honant hwy awdurdod i roddi "gollyngdod" i bechaduriaid wedi cyffes, edifeirwch, a phenyd. A yw gweinidogion y Bedyddwyr yn America yn honni fod ganddynt hwythau gyffelyb awdurdod. ?

Nid yw bod yn flaenor unrhyw blaid wleidyddol yn orchwyl addas i ddyn croendeneu. (Os wyt ti, ddarllenydd yn amheu hyn, gofyn i Baldwin, Lloyd George a Ramsay Macdonald). Y mae'r olaf mewn dŵr brwd o galan i galan. Mae Gwylliaid Cochion Rwsia yn ei flino yn barhaus. Ni fyn y Bolsheviki ei adael ef a'i gymrodyr yn llonydd. Mewn erthygl yn "*Forward*," dywed blaenor Plaid Llafur :—

"Heddyw, y mae ar waith yn y byd elfennau sydd wedi eu harwisgo a mwg y pwll diwaelod. Cashant Blaid Llafur. Pan fyddont yn y Blaid, bradychant hi. Od oes gennym ni ryw syniad am wir ystyr Sosialaeth, nid oes i ni gyfathrach a hwynt. * * * * Gwell gennyf fyddai gweled y Blaid yn ymrwygo er cael gwared o ysbryd ffiaidd (nad all ddwyn dim ond dinystr a dirmyg ar ein gwarthaf) na gweled y Blaid yn cydfyw yn heddychol gyda'r fath giwed ysgeler."

* * *

Cythryblir dilynwyr Mahomet, sydd yn trigo ym Mhrydain, gan lawer o bethau a draethir, yn y papyrau dyddiol, am eu crefydd. Gellir casglu fod yn eu mysg hwy, fel ym mysg dilynwyr Iesu, rai sydd yn ymwrthod a llawer o'r hen draddodiadau, sydd hefyd yn ceisio "esbonio ymaith" lawer o gynnwys y Coran gan ddatgan mai damhegion ydynt. Haerodd rhywun fod Mahomet yn dysgu fod pum bwystfil yn y nef—sef y ci a fu'n gwarchod saith cysgadur Ephesus, yr hwrdd a offrymodd Abraham yn lle Isaac, asyn y proffwyd Balaam, yr asyn yr aeth Iesu ar ei gefn i Jerusalem, a'r mul yr esgynnodd Mahomet ar ei gefn i Baradwys. "Lol i gyd," medd un o amddiffynwyr Islam. Ishmael (nid Isaac) a fwriadai Abraham ei offrymu. Nid esgynnodd Mahomet yn gorfforol i'r Nef ; ac nid yw'r hanes am y mul ond dameg yn arwyddocau llwyddiant ei grefydd. Ac am yr holl fwystfilod ereill, nid yw pobl Islam yn credu fod ystablau i greaduriaid direswm yn y Baradwys nefol. "Credant yn hytrach fod pethau y byd nesaf yn hollol wahanol i bethau y byd hwn. Ennill gwybodaeth wirioneddol, a chyflawni gweithredoedd da—mewn cytgord ar wybodaeth honno ; a thrwy hynny agoshau at Dduw—dyna hanfod Paradwys y Moslem." Rhaid cydnabod fod Mahometaniaid "Protestanaidd" yr oes hon yn palfalu am syniadau teilwng o'r ganrif. Ond y mae lle i ofni mai ychydig yw eu nifer, a bach eu dylanwad.

* * *

Nid oes diwedd ar ryfeddodau ein dyfeiswyr. Dangoswyd peiriannau anhygoel o gywrain yn y Central Hall, Llundain, ychydig

wythnosau yn ol. Peiriant trydanol at ysgrifennu oedd un ohonynt. Mae peiriannau rhifo o wneuthuriad trwsgl, yn adnabyddus er's ugeiniau o flynyddau ; ond y mae y mathau diweddaraf yn ddigon i syfrdanu dewiniaid. Ychwanegu, lleihau, lluosogi a rhannu ffigyrau yn yr un amser yw gorchwyl un ohonynt—"*a device to add, subtract, multiply and divide, simultaneously.*" Dywedodd rheolwr Cwmni Yswiriol y Prudential fod y Cwmni wedi gochelyd gwario dwy filiwn o bunnau, yn ystod y chwe' mlynedd diweddaf drwy wneyd defnydd o "felinau rhifo."

* * *

"Sut y gellir cysoni daioni a hollwybodaeth Duw a'i waith yn creu eneidiau a ant, fel y gwyr Efe, i uffern ?" Dyna ofyniad a ddanfonwyd at olygydd yr "*Universe*"—un o bapyrau wythnosol y Catholiciaid Seisnig sydd yn neillduo adran at roddi atebion i bobl ymchwilgar. Mae'r ateb i'r gofyniad hwn yn deilwng o sylw, canys, yn sicr, dangosir ynddo ysbryd newydd :—

"Gofynnwn ninnau i chwi : Sut y gwyddoch chwi fod Duw yn gwneud yr hyn a grybwyllwch ? Cofiwch hyn : Y mae uffern ; ac iddi yr a pobl sydd hyd eu hanadl olaf yn gwrthod edifarhau a derbyn gras Duw. Ond a allwn ni brofi fod pobl o'r fath ? Ni ddadguddiwyd y peth ; ac ni wyddom ni ddim am y ffeithiau. Gallai tad ddweyd wrth fab anystywallt : 'Os troseddi di eto, mi a'th chwipiaf.' Dyna'r telerau. Os trosedda'r mab drachefn, gallwn ddirnad y canlyniadau. Ond mae'n bosibl na fydd unrhyw ganlyniadau. Nid allwn ddweyd yn sicr fod un enaid dynol—hyd yn oed Judas—yn uffern. O ystyried yr ymresymiad hwn, gellir osgoi llawer o dybiau anfuddiol."

* * *

Gadawodd Mr. Boedo-Yanez, Manceinion, tua £27,000 yn ei ewyllys, i'w rhannu rhwng ei berthynasau. Un o'r amodau oedd fod pwy bynnag ohonynt a geisiai godi ymryson a myned i gyfraith i golli pob hawl. Fel hyn y terfynai yr ewyllys :—

"Wrth farw, fy anogaeth ddifrifol i'm hetifeddion yw fod iddynt ymroi i wneyd gwaith ac ennill gwybodaeth yn brif nod bywyd ; i ffrwyno eu meddiannau, eu hiechyd, eu nwydau a'u profedigaethau ; i fod yn garedig at eu cyd-ddynion ac yn enwedig at bobl a fo'n dlawd a dihoced ; i feithrin cariad ; i ffieiddio meddwdod ; i ymatal rhag hap-chwareuon, i fod yn falch o'r ffaith fod pob peth a feddant (heblaw pethau a etifeddasant) yn ffrwyth eu llafur ; i amddiffyn anifeiliaid—yn enwedig ceffylau

ac asynod—rhag creulondeb ; i fyw yn uniawn ; dilychwin ac anrhydeddus ; ac i baratoi i farw yn ysbryd gwir grefydd."

Onid oedd yr Ysbaenwr hwn yn " bur agos i'w le " ?

* * *

Un o fechgyn Caerfyrddin yw Mr. Ernest Rhys, golygydd y gyfres werthfawr honno o lyfrau Saesneg a gyhoeddir gan Gwnni Dent. Eisioes y mae 800 o lyfrau wedi eu cyhoeddi yn yr " Everyman's Library." Ychydig ddiwrnodau yn ol cyhoeddwyd ugain o'r llyfrau yn un crynswth. Pe na chyhoeddid mwy, caffai'r sawl a fedd yr wyth cant ddigon o waith darllen am oes. Ond cyn y cwblheir arfaeth J. M. Dent ac Ernest Rhys, sef cyhoeddi mil o gyfrolau, rhaid fydd chwilio a chwalu eto. Gellir dibynnu ar y Golygydd am wneud detholiad teilwng o glod.

* * *

Ugain mil a ganmola
Ei lyfrau doeth a'i lafur da."

* * *

Un o fechgyn Ceredigion oedd Mr. John Edwin de Hirsch-Davies, a fu farw ychydig ddyddiau yn ol yn Llundain. Ganed ef yn Llanbedr ; ac wedi cwrs o addysg yng Nghymru, enillodd radd yn Rhydychen. Bu yn gurad am ugain mlynedd yn yr Eglwys Esgobol ; ond ymunodd wedyn ag Eglwys Rhufain. Dangosodd lawer o sel dros yr eglwys honno ; ac ysgrifennodd gryn nifer o erthyglau a llyfrynnau ar hanes yr Hen Nain yng Nghymru. Yn eu mysg, crybwyllir " Y Tadau Apostolig," " Yr Eglwys a'r Diwygiadau," " Buchedd Dewi Sant." Dadl sylfaenol Pabyddion yr oes hon yw : " Yr oedd yr hen Gymry yn cydnabod awdurdod y Pab ; gan hynny, dylai Cymry yr oes hon ei chydnabod." O ffolineb !

PWY.

# *Priodasau.*

IONAWR 27, yn y Tabernacl, Pontardawe, o flaen y Cofrestrydd, a'r Gweinidog, ymbriododd Mr. Thomas J. Morgan, Trebanos a Miss Gwladys Jenkins, Alltwen.

SADWRN, Ionawr 29, yng Nghapel yr Undodiaid ym Mhontypridd, gan y Parch. E. R. Dennis ac o flaen y Cofrestrydd, unwyd mewn glan briodas Mr. Christmas David Rimron a Miss Olwen Davies, merch Mr. D. Davies, un o ffyddloniaid yr achos. Siwrnai dda i'r par ieuanc.

# *Adgofion Hen Fedelwr am Gynhaeaf Henffordd.*

(*Yn Nhafodiaith De Ceredigion*).

TYDDYN bach oedd y Camberth ym mhlwyf Trefdeyrn, a'i drigianwyr oedd Shamss Pŵel a Sali ei ferch. Un nos yn Nhachwedd dyna gnoc ar y ffenest, ac wele'r drws yn agor. Wele'n sefyll ar ganol llawr fab Cwmgwedneth.

"O, ti Bili sy na bachan, dere mlan, iste ar y coffor halen fan hyn. Shwt wyt ti heno, a shwt ma nhw gatre?"

"O, da iawn Shamss Pŵel, wel beth i chi yn geisio neid mor ddiwyd a'r rheffyn gwellt na?"

"Gweithio rheffyn pen bys i'w droi am y cryman ma, er mwyn iddo gadw yn leiw. Mae ei waith ar ben am leni to, weldi; ond ma gen i olwg fowr ar gryman."

"Wel, wel, yr ych yn ddeiarol iawn heno to, serchu miwn tipyn o ddur."

"Cymer di bwyll yngwas i, ma amal i gryman wedi enill rhent y Camberth i fi cyn hyn. Fel hyn wyddost ti, own ni yn arfer mynd i Shir Henffor fel galwem y lle, bob blwyddyn yn gyson i fedi, cyn y bydde y cynheia ffor hyn yn dechre."

"Own ni yn arfer meddwl mai chi Shamss oedd y fforman ar y fyddin fedi gyda nhad bob amser."

"Ie, digon gwir, ond byddwn nol erbyn bidde eich cynhaea chi yn dechre machgen i."

"O, rhowch dipyn o hanes cynhaea Shir Henffor imi wirione, carwn ei gael."

"Wel, fel rheol byddem yn mynd yn ddou a dou gyda'i gili. Bensha Seimon fydde mhartner i bob amser tra gallodd ddod druan. Dechre Awst byddem yn gosod y tacle yn barod; y cwdyn a'r bwyd ar y daith, a'r cryman wedi ei gwato gan reffyn gwellt fel hwn, par o gloes yn spar, carreg hogi, a chrys. Cychwyne Bensha a finne tua deg o'r gloch y nos. Wn i ddim pam ond hoffem gychwyn rhwng dou ole. Gweithiem ein ffordd ymlan ac erbyn y bore biddem yngolwg Rhiw Rhippyn Jâl Carfyrddin. Yna bytem docyn o fara, lliw menyn arno, a thoc o gaws. Chwanege hyny chydig o nerth ac ymlan yr elem yn arfog. Wedyn newidem y sgidie bach pedwar twll am y clocs."

"Pam hynny, Shamss, rodd y clocs shwr o fod yn drwmach na'r sgidie."

"Wel, rodd newid peth am drad weldi gystal a hoe. Nawr roem yn nesu at Landeilo. Miwn rhyw hen blas fanny, gweles i fwch y danas ginta rioed. Rodd llawer o honi nhw yn pranco ar hyd y perci obiti'r lle. Elem ymlan i gyfeiriad Llanddifri. O,

biset ti Bili yn gweld y ffordd lydan ffor ni. Ro'n nhw'n gweid bod hi cyn lleted a stryt Llunden bob tipyn. Rodd hi yn farc da ni dreio cyrradd Llanwrtyd cyn nos tywyll."

"O ie, 'r ffynone sy fan ni ontefe. Rhyw ddyn o ochr Castellnowi gas afel yn y dwr ni gynta rioed medde nhw. Ma nhw'n gweid fod dwr no yn cryfhau'r galon hefyd."

"Taw son, dos dim at dê bisse cwn i grifhau hono ngwas i. Wel, rodd yn rhaid meddwl am le i roi pen lawr y nos hyny. Fel rheol galwem yn ffarm Cefncoch gal gweld a on nhw'n llawn."

"Llawn o beth i chi'n feddwl Shamss?"

"Llawn o fedelwyr bachan, wyt ti yn meddwl mai dim ond ni'n dou odd yn mynd i Shir Henffor i fedi. Na, na, rodd lot heblaw ni ar u trafel no. Os bidde lle gan wr Cefncoch, caem fynd i'r sgubor i gysgu i ganol y gwellt. Roe'm ar ddihun gyda'r wawr; ond cyn madel rodd yn rhaid torri tipyn o frige i wraig y ty, a fachgen mi gaem phioled o wmed maidd yn dâl. Rodd hwnw yn rhwbeth a safe wrth dy eis di hefyd. Codi'r pac bach ar y cefen 'to a ffwrdd a ni i gyfeiriad codiad haul nawr. Croesem fynydd-dir garw, milodd o ddefed bach penne gwynion yn pori mhob man o gwmpas, a'r merlod bach a'u cluste nol fel swarnogod."

"We chi yn gweld fowr o ddynion ffor ni gwlei."

"Na, dim ond amell i fugel fan hyn, a fan draw. Rodd na fel adwy rhwng amell i fynydd ai gili; a phan on ni yn croesi Crug Mowr on ni ein dou yn meddwl am gatre. Cofio am Crug Bach weldi, a'r pum plwy yn cwrdd no, a ninne yn cerdded y ffin."

"Faint o ffordd odd gydach chi wedyn or fan ni Shams Pŵel?"

"Wel, on ni yn swn Shir Henffor wedyn megis. Ar ol teithio drwy'r dydd biddem yno, a'r gamp wedyn odd cael lle i fedi."

"Wel, own ni yn meddwl fod lle yn barod da chi', fel se chi yn mynd at eich cyflog."

"O na, rodd yn rhaid treio sawl ffarm amell waith, oblegid bidde rhywun wedi achub y blan arno ni. O'r diwedd cawsem un yn barod in cimrid. Cytuno fel gallem, weithe cawsem swllt, a phrid arall beder cinog ar ddeg."

"Gwarchod byd, mynd yr holl ffordd a chal dim ond hynny."

"Ie, yn gowir fel ni'n machgen i. Dyw hi ryfedd yn y byd fod cyrn celyd ar ddwylo rhen Shamss."

"Shedremo gwlei, 'run peth o chi yn neid yno fel gyda ni."

"Paid loia, welest ti fath gymendod yn dy fyw. Rodd yn rhaid cario'r ysgub ar gefen dy droed nes y bidde yn ddigon o faint. Pob tywysen yn i lle, dim un i fod ar y ddeiar nag un ynghwt yr ysgub chwaith."

"Faint o fyddin oeddech chi fel rheol Shamss?"

"O byddin go lew wir, a rheini yn listi ei gwalie, a da odd hyny hefyd i sefyll y jercs gaem ambell dro gan hen geryg pica. Tarawsem yr hen gryman weithe nes i fod e yn swno fel ogo ddwnsh Penbryn."

"Wedd hyny ddim yn ei bwli fe gwedwch?"

"Wel, wedd, machgen bach i, ond nid odd amser i sylwi ar bethe fel ni. Mynd fel milgwn o hyd nes doithe adeg cino; a mi alla i weid wrthot ti hefyd fod disgwl am dano."

"Ble we chi yn cal hwnw, mas nei miwn?"

"O, bachan, bachan, mas. Adeg cino mi welet swiben o feniw dal, a hono yn cerdded fel sath miwn trw fwlch y parc. Rodd y stwc ar uwd rhinion ar i phen hi, y shwc ar llath yn un llaw, a'r basged a'r llestri yn y llall. Rol cyradd pen tir pob un yn iste lawr ar i shedrem a bita gyment gawse fe. Wedyn hoe am biti awr falle i hogi'r cryman pŵl. Gosod un benlin lawr ar y ddeiar, a'r gareg hogi yn mynd fel y meil ar hyd iddo nes ei wneud fel aser. Gwelem y fforman ar i drad fel bwlet, ac yn gweiddi 'Hei ho' yna rodd hi yn bryd i ninne godi i ail ddechre shedremo."

"Faint o chi yn neid yr un Shamss bob dydd?"

"Wel, ma nano i fi hala di ddeall, wath we perci Shir Henffor fel rhyw For Canoldir weldi, ond we ni yn gneid grynau lawer yn ystod y dydd."

"We chi yn cael dim llymed na thamed wedyn gwlei hyd swper?"

"O, oeddem, caen rhyw bryd ambor fel y galwent ef. Tocyn o fara menyn fel heter i bob un, a phioled o feth fale. Paid loia, dyna beth ffein, we cistal gyda ni hwnw a dim byd we ni'n gal. Wedyn shedremo mlan hyd nes bo'r houl yn mynd lawr; ac yna am y ty i gal swper."

"Rhowch glwed wir beth we chi yn gal i swper Shamss."

"O tato trw'r pil, a bacwn hallt, a llond bowlen o lath enwyn gyferbyn a phob un, wath pa un a fidde yn ei lico nei beido. Wedyn hei ati i hogi'r cryman yn dda erbyn y bore. Yna mynd i'r cae nos a dda i weld e hefyd."

"Run gwaith bob dydd gwlei?"

"O ie, hyd nes y dibenem fedi; yna dechre rhwymo. Rodd yn well gen i hynny na medi rwfodd. Er we mistir y lle yn dod round i bob un ohonom gal gweld shwt reffyn a chwlwm we ni yn neid. Cydio mewn twsw o flan yr ysgub, osod e am dani mor dyn na allem ni ddim hala blan bys bach miwn rhwng yr ysgub ag ynte."

"Wel, shwt we chi yn hala dy Sul no, we chi ddim yn medi prid hynny, we chi?"

"O na, dim byd, gorffwys, a mistin yr hen gorpws gyment a gallem ac adrodd storie. Fel gwyddost ti we Bensha Seimon yn gampwr am stori a chadwe le difyr iawn no. Os galla i gofio mi adrodda i stori ryfedd iawn iti. Gan wr rhyw ffarm clywes i hi, ac rodd yn wir i gyd a dim clwtyn arni mynte fe. Unwaith rodd llawer iawn o wnla wedi bod yn Shir Henffor, ac we un o'r bobol fowr wedi cael mynd yn garcharor. Cymro wedd e hefyd mente'r dyn. Gwydde'r dyn odd yn rhwym ei dynged ganddynt, sef cal torri ei ben bant. Rodd yn gobeithio drw'r cwbwl cal dod yn

rhydd hyd nes gwelodd y plocyn a'r wyell yn barod. Ond ar ddydd marchnad yn Henffor cadd ei ben fynd fel pen barcut. Ar sgwar y farcet rodd na groes gareg, a rhowd pen y Cymro ma ar y step uchaf ar y groes. Yn y prinhawn mi ddoith meniw ddwl at y groes, a mi gribodd y gwallt odd ar y pen, a golchodd ei wmed yn lan leiw. Wedyn pan ath hi yn nos, mi ddoith a chant o ganwylle, a mi gynnodd rheini obiti'r pen, fel se hi ym mynd i gadw gwlnos iddo fe. Own ni yn teimlo'n ngwad i yn berwi wrth glywed stori fel na."

"Wel, wel, dyna ofnadw, mae bron yn amhosib i beth fel na fod yn wir gwlei."

"Bachan, we rhyw ddou ddyn doniol iawn o weilod y shir ma rwle gyda ni rhyw dro; ac we un o nhw yn rigymwr da, mi weithe ganu mor gloi a'r gwynt."

"I chi yn un da am gofio, Shamss Pŵel, odi chi yn cofio rhai o rheini wn i?"

"O, odw, man af fi ati, gronda:—

Ar ben y bryn ma dreinen grin,
Lle i bechadur rwbio 'i hun
A hono'n tyfu a'i spage mas;
Wrth rwbio'n galed fe all gal gras.

Tri pheth sy'n canu'n ffein,
Swit y wein a'r swigw,
Ac un o ferched Robin Sais;
Sy a'i llais hi fel y gwcw."

"Ha, ha, wel dun wir, mai cistal ma a bisse ni miwn shimli."

"Aros, dipyn bach i fi gal adrodd un stori am Bensha a finne yn dod nol o Shir Henffor rhyw dro. Wel, ma iasis yn dod drostw i wrth gofio am deni. We ni wedi trafeili am biti saith awr falle. Y cwd ar y cefen, a'r arian miwn poced tufiwn i'r wasgod; y galon yn weddol ysgon, meddwl am gartre weldi. We Bensha a finne wedi craffu ar berllan o fale braf wrth ddod, a mi sharadon a'n gili mynne ni brofi blas y fale wrth ddod nol. Roeddem ni wedi dod nawr hyd at y berllan. Rodd wal uchel o gwmpas iddi gyd. Mi grabiniodd Bensha a finne lan fel dou gwrci dros y wal a miwn iddi; ond bobol anwl, gyda bod ni yn disgyn ar y ddeiar dyma lanast o hen gi du mowr fel asyn Malen Step yn dod i gwrdd a ni. Shiglodd i gwt, o ma popeth yn reit mynte finne. Nawr te, tynnu'r fale lond y pocedi, a rhai yn y cwd hefyd, Ond pan eitho ni i dreio dod mas o'r berllan, dyna'r hen gi ar i wrych a dangosodd liw i ddanne i ni. 'Wel ma ni ar ben Shamss bach' mynte Bensha, 'chewn ni ddim mind mas mwy o fan hyn, gad i ni dreio to, towli'r fale lawr i gyd fan hyn.' Gwnawd hyny, a wedyn treiwd ddringad lan, ond dyna blwc nol i ni. Mi welon nad odd wiw simid o'r fan ein bod yn y jal. Cinigodd Bensha fod yn rhaid dibenu yr hen

gi, ond shwt, a phwy odd yn mynd i neid y job. Wedi edrych ar i gili am spel yn fud, mi wedes i gnawn i dori ben e bant a'r cryman. Ar ol i gal e i fan cyfleus, y cryman yn barod tu ol i fi, wele'r ergyd a dyna'r hen gi ar lawr yn gelen heb un wawch. Myn cebyst i dyna ni mas dros y wal gynted a gallem ag wmedi am nol ffor we ni wedi dod. Ar ol mind tipyn eithom miwn i barc, hyd y bore. We cwsg ymhell mi alla i weid wrthot ti ngwas i. Yn y bore dyma ni to yn dechre teithio am gartre."

"We dim ofan arnoch chi erbyn hyn Shamss?"

"Wel, wedd, rodd ein calonne ni yn ein gwddwg. Erbyn i ni ddod i ochor y berllan buon ni yndi yr hwyr cynt, rodd lot o bobol obiti'r lle. Y cwbwl yn ferem drwyddi draw a'r bytyne gleiw yn waco nol a mlan. Mi geiso ni fynd heibo yn ddigyffro. Fentro ni ddim holi neb beth odd yn bod, ond mlan a ni nerth ein carne. Beth welem yn dod i'n herbyn ond dou bolis ar gefne ceffyle a medelwr gan bob un ar i geffyl. Wel, mi ath rhwbeth i nghalon i fel plwm, wath mi wyddwn fod y ddou ni yn rhydd, a mai Bensha a finne odd yn euog. Mi ddoith y nos, ac awd i ryw ffarm i ofyn am le i gysgu. Atebodd gwr y ffarm ni yn sarug iawn. 'Dynion drwg i chi sydd yn dod i fedi ffor hyn a lladd ci gwr Plas-y-Wern. Ni chymre gan punt am dano, ond mant wedi cal y ddou ddihyryn erbyn hyn, ac rwyn shwr ca nhw garchar hefyd."

"Wel rwyn gweid wrthot ti we whant arna i fynd nol y fan ni, a gweid mai ni odd yn euog; ond rhaid odd cuddio'r cwbl."

"Dowd adre i'r Camberth, ond nid mor llawen a phan ddechreuon ni'r daith o Shir Henffor."

"Wel, Shamss, a gas y ddou ddyn hyny jal?"

"Do machgen bach i, bum mlynedd; ond pan glywodd gwr y ffarm we nhw wedi bod yn medi ganddo, mi ath bob cam at y biddigions i cal nhw'n rhydd. Alle nhw byth fod wedi gneid y drwg; we nhw heb starto pan welwyd y ci yn gelen farw. Mi geison ddod yn rhydd a ma'r troseddwyr hab gal i dala hyd heddi Bili."

"Pryd ceisoch chi glwed yr hanes wedyn te, Shamss Pŵel?"

"O, ymhen y flwyddyn, wrth fynd i'r cynhaea wedyn; a dyna ryddhad geison ni'n dou i glwed na we nhw ddim yn y jal."

"Ma Sali'n dod nawr yn jacos i gwala."

"Mi ddath rhy gloi o lwer, yr own ni yn lico yn anghyffredin gael hanes cynhaeua Shir Henffor gyda chi, a diolch yn fowr iawn am dano Shamss Pŵel. Dim ond amell i scrap own i yn gal gyda nhad."

"O, stim isse machgen bach i, mi gei di hanes y byng 'slawer dy' da fi to os doi di ma yn gloi."

"Gna wir, diolch yn fawr. Nos da Shamss Pŵel."

"Nos da Bili, ac esmwyth cysgot ti."

*Nanternis, Cei Newydd.* MATTIE THOMAS.

# *Yr Athro W. J. Evans, M.A.*

YCHYDIG feddyliais pan ymgomiwn ag ef yn ei study yr Hydref diweddaf, a'i feddwl mor effro, fod y diwedd mor agos. Erbyn heddiw y Prifathro nid yw mwy, a sicr fod llu mawr iawn o'i hen ddisgyblion yn dal ei goffa'n wyn.

Hannai o linach Undodaidd o'r ddwy ochr, ond ysgolor tawel ydoedd ac athro yn anad dim ac esbonia hyn ond odid y rheswm paham na welid mohonno'n amlach yn ein plith.

Mab ydoedd i'r Parch. Titus Evans, aelod ar y dechreu o eglwys Horeb ac wedi'i baratoi i'r coleg gan gyfyrdder iddo y Parch. Owen Evans, Cefncoed y Cymer. Bu'n weinidog ym Mhenrhiw a Phanteg am ysbaid fer ac ar Onnenfawr a Rhydyparc am ryw bymtheg mlynedd. Eto ond odid ei fod yn fwy adnabyddus fel Ysgolfeistr yn Academi Parcyfelfed o 1849 hyd 1864. Bu farw ar y 29 o Chwefror 1864 yn wr canol oed—55 mlwydd oed—ac etifeddodd ei fab ran helaeth o ddawn y tad i gyfrannu addysg.

Merch oedd ei fam i'r Parch. John Jeremy, Caeronnen. Aelod ym Mhanteg oedd Jeremy ar y dechreu ac aeth i Academi Gwrecsam ond buan dychwelodd i Gaerfyrddin. Calfinaidd oedd ei olygiadau, ond mynnir yr edrychid arno yn y Coleg fel yn gogwyddo at Arminiaeth. Yn 1808 agorodd ysgol yn Llanybri. Ceir ef wedyn yn athro preifat ym Mhwllheli ac yn 1815 ordeiniwyd ef yn weinidog ar Eglwys Annibynol Salem, Llandovery a diddorol heddyw yw ei "lythyr gollwng,"—

> "*Dismission.* We the Members of the Church of Christ at Salem Landovery, do peaceably resign our beloved Pastor the Rev. John Jeremy and recommend him as one who bears an exemplary conduct to an Independent Church of the Calvinistic Principles. Sept. 21st, 1819.
>
> *Elders*: TOMHAS DAVIES.
> DAVID PRYTHERCH.
>
> *Deacons*: DAVID REES.
> THOMAS RICHARD."

Ac yntau yn weinidog Salem ymbriododd a gweddw y Parch. Evan Davies, Caeronnen a merch Walter Davies, Maespwll. Wedi priodi, rhoddodd Weinidogaeth Salem i fyny a symudodd i fyw at ei wraig i Gwmbedw Llanbedr a chyn pen blwyddyn yr oedd yn

weinidog Caeronnen. Dengys hynyna y graig o'r hon y naddwyd y diweddar Brifathro. Fe'i ganwyd yn Nhre Caerfyrddin yn 1856. ond collodd ei dad ac yntau ond wyth mlwydd oed. Cafodd ei addysg fore yn Academi Parcyfelfed, yn Ysgol Ramadegol y dref ac yng Ngholeg Caerfyrddin. Ac yntau ond 17 oed, aeth i Rydychen i Goleg Iesu gan raddio yn y clasuron. Bwriedid ef i'r weinidogaeth ond wedi bod ohono rhyw un flwyddyn dan Dr. Martineau deallodd ei fod wedi cefnu ar ei lwybr. Ymadawodd gan benderfynu bod yn athraw Ysgol. Yn 1884 apwyntiwyd ef yn athro mewn Groeg a Lladin yng Ngholeg Caerfyrddin a phedair blynedd yn ddiweddarach yn Brifathro ar ymddiswyddo o'r Dr. Vance Smith. Annoeth fuasai gwneuthur dim yma ond "mynd o'r tu arall heibio" i'r helynt wedi'i apwyntio.

Yn 1888 hefyd yr ymbriododd ag Annie, unig ferch y diweddar S. S. Curtis, Upper Clapton a Leadenhall Street, Llundain a bu iddynt fab a dwy ferch.

Ni pherthyn i mi ddilyn ei yrfa'n fanwl ond cymerodd ran anrhydeddus yn yr ymdrafod cyn sefydlu Prifysgol Cymru a pherodd erthygl o'i eiddo yn y "Welsh Review" yn apelio am Adran Ddiwinyddol gryn gyffro ac y mae adran felly i'r Brifysgol.

Undodwr goleuedig ydoedd er ei alw ac yntau'n ieuanc gan farnwyr yn Atheist, a diddorol oedd gwrando arno yn ei ffordd dawel yn mynd dros yr hen gwerylon ac yn ail adrodd am yr hen enllib, neu yn datgan ei farn yn groyw ac heb yr un amheuaeth am y ffydd a anwylai yn ei galon. Gwasanaethodd ei dref a'i wlad ar y gwahanol gynghorau, o gyngor y dref i Senedd y Brifysgol. Ychydig flynyddoedd yn ol cyhoeddodd ei ymchwil i farddoniaeth Ladin ond hwyrach mai fel croniclydd manwl a hanesydd yr enwad y bydd ei enw byw.

Cydnebydd y Parch. G. Eyre Evans yn ei "Vestiges of Protestant Dissent" ei rwymedigaeth iddo. Gŵyr darllenwyr Yr Ymofynnydd am ei erthyglau ar hanes Coleg Caerfyrddin a cheir erthyglau ereill ganddo yn y "*Lloyd Letters*." Dengys ei fywgraffiadau o'r Myfyrwyr Undodaidd yn Oriel Coleg Caerfyrddin wybodaeth ac ymchwil a gŵyr rhai ohonom am lawer erthygl arall yn enwedig ei erthyglau ar hanes Undodiaeth yn nhref Caerfyrddin. Nid yw'r erthyglau hyn ond briwsion megis. Cyn ei adnabod na gwybod am ei waith na'i wybodaeth rhaid oedd dod yn agos ato yn ei study, troi tudalennau'i bedair cyfrol o fywgraffiadau o Fyfyrwyr y Coleg a'i nodiadau ar hanes yr enwad. Anfonodd imi o bryd i'w gilydd bob nodiad o'i eiddo heb imi eu ceisio na gwybod am danynt. "Y mae croeso i chwi weled popeth sydd

gennyf," meddai "gan obeithio y medrwch chwi gael rhyw help ynddynt i sylweddoli breuddwyd a'm haflonyddodd i am flynyddoedd hir—ysgrifennu hanes yr enwad yng Nghymru."

Ni wn pryd y daw y breuddwyd i ben ond diolchaf am i mi gael adnabod Cristion a gwr bonheddig ac am iddo gael byw i agor pob trysor o'i eiddo i mi.

Bu farw ar y 10 o Chwefror a llosgwyd ei gorff y dydd Mawrth dilynol ym Mhontypridd. Gwasanaethwyd ym Mharcyfelfed gan y Prifathro newydd, y Parch. J. Park Davies, M.A., B.D.

Gadawodd weddw oedranus, mab ymhell dros y mor, a dwy ferch heb law llu o'i gydnabod i alaru am briod a thad, am brifathro a dinesydd ymroddgar, am ysgolor a gwr bonheddig.

T. O. W.

# *Crefydd.*

## YR ELFEN GREFYDDOL MEWN DYN.

(*Parhad o Erthygl yn Rhifyn Chwefror*).

Y MAE'R reddf grefyddol yn un gyffredinol. Profir hynny mewn gwahanol ffyrdd. Y mae beth bynnag a fodola yn natur sylfaenol un dyn yn bodoli hefyd ymhob dyn, er mewn gwahanol raddau. Yr un ydyw'r natur ddynol ymhob cenedl, oes a gwlad. Erys dyn yn wastadol yn union yr un yn ei hanfod, ond yn unig fod amgylchiadau gwahanol, hinsawdd, sefyllfa, gwrtaith, cenedl a phersonau unigol yn newid yr amlygiadau o'r hyn sydd yn sylfaenol yr un peth. Gan hynny pan ddangoser fod y reddf grefyddol yn hanfodi mewn unrhyw ddyn fel egwyddor naturiol, y mae ei bodolaeth ymhob dyn arall a fu, a sydd ac a ddaw yn canlyn yn anocheladwy oddiwrth undeb y natur ddynol. Hefyd cadarnheir cyffredinolrwydd y reddf grefyddol gan ymresymiadau hanesyddol. Ceir ymddangosiadau o'r reddf grefyddol ymhob gwlad y bo dyn wedi dyrchafu uwchlaw cyflwr boreol yr anifail. Wrth reswm yr oedd yna gyfnod yn hanes ei ddatblygiad pan nad oedd ei reddfau crefyddol wedi cyrraedd eu gweithgarwch ymwybodol, ond wedi i'r cyflwr hwn o fabandod ysprydol fyned heibio ceir yna deimladau crefyddol dwys ymhob gradd o wareiddiad. Nid ymddengys fod yna gyfnod yn hanes dilynol dynion nad oedd yna amlygiadau o'r reddf i'w canfod—fe addola dyn, fe deimla ei ddibyniaeth a'i gyfrifoldeb, fe'i meddiennir gan ofn a gobaith

crefyddol, a cheir arwyddion o'r teimladau crefyddol dwys yma dros yr holl fyd. Ni chafwyd cenedl a thân a dillad ganddi mor anwar nad oedd wedi cyrraedd y sefyllfa hon, na'r un mor goeth a'i gordyfu. Mae'r sylw eangaf, gan hynny, yn ogystal a'r casgliad oddiwrth natur dyn yn gwarantu fod yr elfen yn un gyffredinol.

Ond ar yr olwg gyntaf y mae yna rai eithriadau ymddangosiadol i'r rheol hon. Cyfyd yna ychydig bersonau o bryd i'w gilydd a hawliant yr enw anffyddwyr, ond addefa hyd yn oed y rhai hyn eu bod yn teimlo'r duedd grefyddol hon. Cydnabyddant y teimlad o ddibyniad, a briodolant nid i weithrediad iach elfen naturiol yn eu cyfansoddiad ond i afiechyd, i ddylanwad gwrtaith neu addysg eu mamaethdod a gyfrifant yn afiechyd cyndyn eu meddwl, neu'n ragfarn wedi ei yfed yn fore gyda llaeth y fron—ac nid un i'w symud yn rhwydd ydyw rhagfarn llaeth y fron. Hyd yn oed pe ceid un a wadai iddo erioed deimlo ymwybyddiaeth grefyddol gan nad pa mor wan ni wnai hynny wrth brofi cyffredinolrwydd ei bodolaeth yn fwy nag y gwnai genedigaeth plentyn ag un fraich wrthbrofi'r rheol gyffredinol fod dyn wrth natur a dwy fraich ganddo.

Eto, dywed teithwyr wrthym fod rhai cenhedloedd lled wareiddiedig heb Dduw, heb offeiriaid, heb addoliad, ac na roddant unrhyw arwydd o fodolaeth yr elfen grefyddol ynddynt. A chaniatau eu bod yn datguddio ffaith nid ydym i gasglu fod yr elfen grefyddol yn eisiau yn yr anwariaid hyn, ond yn hytrach eu bod hwy fel babanod heb gyrraedd y safon briodol pan amlygir arwyddion o'i gweithrediad. Ond y mae'r teithwyr hyn yn cyfeiliorni'n aml. Sylwant mewn achosion o'r fath yn arwynebol, heb ond ychydig amgyffred o ffyrdd y cenhedloedd yr ymdriniant a hwy. Edrychant am addoliad rheolaidd, athrawiaethau crefyddol, offeiriaid, temlau, delwau, ffurfiau a seremoniau tebyg i'w heiddo hwy eu hunain. Ond pe caffent bobl yn anwybodus o goginiaeth ac heb offerynnau y gelf honno buasai yr un mor addas iddynt gasglu oddiwrth y dystiolaeth naeaol honno nad oedd y bobl hyn byth yn bwyta ac yn yfed.

Mae yna eto un achos arall o eithriad ymddangosiadol i'r rheol. Cafwyd rhai pobl wedi eu gwahanu oddiwrth gymdeithas a'u cyd-ddynion ym more bywyd ac wedi tyfu i fyny i lawn oed mewn cyflwr neilltuedig. Ni rydd y rhai hyn unrhyw arwyddion o'r elfen grefyddol yn eu nhatur. Ond y mae galluoedd cyffredinol ereill yr hil ddynol—y duedd i chwerthin, a'r ddawn i siarad yn groew—yn llawn mor egwan eu datblygiad. Ond pan ddyger y personau anffodus hyn o dan ddylanwadau cyffredin bywyd dadlennir y reddf grefyddol yn gystal a greddfau eraill. Gan hynny, gallwn gasglu fod y reddf hon yn bod, er o bosibl ynghwsg hyd nes y cyflawnir yr amodau addas i'w datblygiad.

Gwasanaetha'r tri eithriad hwn i gadarnhau'r rheol fod y syniad crefyddol, fel y gallu i sylwi, i feddwl ac i garu, yn un cyffredinol yn yr hil ddynol. Eto y mae'n eglur i gyfnod fod pan yr oedd y dyn gwyllt boreol heb nac iaith na hunanymwybyddiaeth cyflawn a phan na roddai unrhyw arwydd o reddf grefyddol o gwbl; yr oedd yr elfen wreiddiol yn gorwedd yn gudd yn y baban-ddyn hwn.

Pa fodd bynnag, fel galluoedd ereill, fe feddir y gynneddf hon mewn graddau gwahanol gan genhedloedd a phersonau unigol. Ar gyfnodau neilltuol yn hanes y byd neu unigolion enilla arbenigrwydd na cheir ef ar amseroedd ereill. Ymddengys nad ydyw Duw yn creu cenhedloedd na dynion sydd yn meddu'n union yr un doniau. Y mae yna wahaniaeth, mwy neu lai amlwg, rhwng datblygiad moesol ysprydol, a meddyliol dwy genedl neu eiddo dau ddyn o'r un genedl. Rhaid priodoli'r gwahaniaeth nid yn unig i amgylchiadau gwahanol ond hefyd i'r doniau gwahanol y cynysgeiddir dynion a hwy. Cymer un genedl y blaen ym myd y meddwl, gwyddor, llenyddiaeth a chelfau; arall mewn rhyfel a busnes ymarferol economeg wladol; a'r drydedd mewn crefydd, ac mewn ymwybodolrwydd crefyddol hi a ragora ar y lleill.

R. C. J.

# *Llythyr.*

ANNWYL MR. GOLYGYDD,—

Diolch i chwi am y Rhifyn Coffa o'r YMOFYNNYDD. Darllenais ef gyda blas mawr fel yn ddiameu y gwnaeth llu o rai eraill, a llongyfarchaf chwi'n wresog ar lwyddiant eich ymdrech.

Ar dud. 59 ceir a ganlyn—"Yn 1794, cyhoeddodd Iolo ei ganeuon Saesneg o dan y teitl "*Poems Lyric and Pastoral.*" Cyflwynir y ddwy gyfrol i Sior, Tywysog Cymru, a cheir ymhlith y tanysgrifwyr enwau arglwyddi ac arglwyddesau ochr yn ochr a rhai fel Thomas Paine, Horne Tooke, Rousseau, Priestley a'r Cadfridog Washington. Serch hynny, ymesyd Iolo yn ei lyfr ar frenhinoedd ac offeiriaid ac o'r herwydd fe'i cyfrifir gan rai yn wr cyfrwys, anwadal—rhyw Sion-bob-ochr." Ond a ellir cysoni'r ddeubeth hyn? Credaf y gellir.

Y mae llawer wedi ei ysgrifennu'n ddiweddar ar waith Iolo'n cyflwyno'r llyfr a enwyd i Dywysog Cymru. Yn ei Ragymadrodd i'r llyfr pwysig diweddar gan Mr. G. J. Williams, M.A. ymosoda Syr John Morris-Jones yn drwm ar anonestrwydd tybiedig Iolo a chyfeiria ei ddarllenwyr at dud. 204 o'r llyfr. Yno dywed yr awdur fel hyn—"Fe'i galwai ei hun yn 'fardd rhyddid' ac yr oedd yn ffyrnig yn erbyn brenhinoedd ac offeiriaid. Ond cyflwyna ei

lyfr '*Poems, Lyric and Pastoral*' yn y cyfnod hwn (1794) 'to his Royal Highness George Prince of Wales'." Hyd yn hyn nid ydwyf wedi gweled, ag eithrio'r paragraff uchod o'r YMOFYNNYDD un ymgais i gyfiawnhau Iolo yn cyflwyno'r *Poems, Lyric and Pastoral* fel y gwnaeth. Nid ydwyf gymwys i farnu prif gasgliadau Mr. Williams ond ni fedraf lai na meddwl fod ei gynefindra ef ac eiddo'r Marchog o Lanfair P. G. ag hanes politicaidd y cyfnod yr ymdrinir ag ef yn brin. I egluro tipyn ar yr amgylchiadau dyfynnaf ryw bedwar paragraff o lyfr hanes diweddar gan Shane Leslie a ysgrifennwyd dan y teitl "*George the Fourth*" (sef y Tywysog y cyfeirir ato),—

"But the gulf between father and son, between King and Prince, was greater than even that which divides Whig and Tory. * * * The Prince became the antithesis and antidote of the King; one was bound to be the death of the other."

"When he (the Prince) found himself opposed by the King, he joined the King's Opposition."

"Erskine later told Cam Hobhouse that the Regent had approved him putting his principles before his Prince and defending Tom Paine's radical book, which incidentally attacked the Royal Family, though perhaps not so fiercely as they sometimes attacked each other."

"As King George was a very different politician to George, Prince of Wales. As Prince he was a Whig with an adventurous tinge of Liberalism."

Yn wyneb hyn, anodd, onide, fyddai cael gwell engraifft o gysondeb. A fedrai Iolo fod yn onestach yn yr achos hwn?

Croesawaf yn wresog gyfraniad gwerthfawr iawn Mr. Williams i lenyddiaeth Gymraeg—fe brawf yn symbyliad cryf i ymchwil pellach—ond pan fo cymeriad neb ar brawf y mae'n rhaid wrth ofal mwy na ddanghosir yn yr engraifft hon.

Yr eiddoch,

J. S. W.

# *Marwgofion.*

RHAGFYR 17, yn 50 oed, bu farw Jenkin Davies, 3, Creighton Terrace, Cadoxton, ger Castellnedd, ar ol cystudd maith a chaled. Mab ydoedd i Mrs. Judith Davies, Unity, Capelygroes; ac heblaw ei fam, gadawodd briod, dwy ferch, un brawd, dwy chwaer, a nifer luosog o berthynasau agos mewn galar ar ei ol. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Eglwys Cadoxton y dydd Mawrth dilynol, y Ficer yn gwasanaethu.

RHAGFYR 17, yn 38 oed, bu farw yn ddisymwth iawn Emily, annwyl briod James Davies, 12, Beaconsfield Terrace, Cadoxton, ger Castellnedd, gan adael priod a phump o blant ieuainc i alaru ar ei hol. Mab ydyw ei phriod (James Davies) i Mrs. Judith Davies, Unity, Capelygroes,

a chydymdeimlir yn fawr a hi ynghyd a'r priod a'r plant yn eu profedigaeth. Claddwyd ei gweddillion hithau yr un dydd ac adeg a'r uchod yn ymyl eu gilydd ym mynwent Eglwys Cadoxton, y Ficer yn gwasanaethu.

Ionawr 20, yn 50 oed bu farw, Gwenllian, priod John Davies, Wellfield, ger Alltyplaca, ar ol hir nychtod. Merch ydoedd i Daniel Davies, Rhoslwyn, Sychbant, gynt o Rydyfydrwydd, ger yr un lle ; a heblaw priod gadawodd mewn galar ar ei hol bump o blant, tad, un chwaer, (Mrs. Thomas, Llysfaenisaf), a thri brawd. Claddwyd ei gweddillion y dydd Mawrth dilynol ym mynwent Capel Nonni, y cynhebrwng yn anghyhoedd. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan ei gweinidog, y Parch. D. Morris Jones, gyda chynorthwy'r Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen.

Chwefror 1, yn 60 mlwydd oed, Mrs. Elizabeth Evans, gweddw y diweddar Mr. Daniel Evans, Pencarniced, Tregroes Llandysul. Bu'r ymadawedig yn dioddef am amser hir, ac aeth i Glafdy Aberystwyth mewn gobaith am wellhad o'i chlefyd, ac yno y bu farw. Dygai fawr sel dros yr achos ym Mhantdefaid, lle bu'n aelod er yn ieuanc, ac anfynych tra y gallai yr oedd ei lle yn wag. Yr oedd o dymer siriol a gobeithiol, ac edrychai ar ochr oleu y cwmwl yn wastadol. Gadawodd mewn galar o'i cholli un mab, brodyr a chwiorydd. Claddwyd ei rhan farwol ym medd ei phriod ym mhnwent Pantdefaid y dydd Gwener dilynol i'w marwolaeth. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. T. Lloyd Jones, (A.), Pencader, E. O. Pugh, (W.), ac E. O. Jenkins.

Chwefror 3, yn 25 mlwydd oed, Dr. Gwilym Idwal Evans, mab y Parch. a Mrs. E. Gwilym Evans, The Parsonage, Dukinfield. Blin iawn gennym gofnodi marwolaeth y dyn ieuanc gobeithiol hwn. Ar ol esgyn o hono i'r alwedigaeth o feddyg cafodd ei ddewis i fod yn House-Surgeon i'r Lake Hospital, Newcastle-under-Lyne y lle y bu farw. Bachgen tawel, diymhongar ydoedd Idwal, a phawb o'i gydnabod yn hoff iawn o hono. Cydymdeimlir yn fawr iawn a'i rieni yn eu profedigaeth lem, ynghyd a'i frawd a'i ddwy chwaer. Bu gwasanaeth coffadwriaethol yng nghapel ei dad yn Dukinfield, cyn dwyn y corff i'w osod ym mynwent y Methodistiaid yn Llangeitho. Yn Dukinfield gwelwyd arwyddion o barch a chydymdeimlad a'r teulu. Yr oedd swyddogion ac uchelwyr y lle yn bresenol yn y gwasanaeth. Gwasanaethwyd yn Llangeitho yn y ty gan y Parch. H. A. Evans (M.C.) a Ficer Nantcwnlle, ac ar lan y bedd gan y Parch. T. Arthur Thomas, Llandysul.

Chwef. 6, Mary Jones, Moyddyn Fawr, plwyf Llanarth, a gweddw y diweddar John Jones, Glanrhydydre, Pontshaen, yn 98 oed. Claddwyd y dydd Iau dilynol ym mynwent St. Ioan, Pontshaen. Pregethwyd yn y ty gan E. O. Jenkins a gwasanaethwyd yn yr eglwys gan E. M. Davies, offeiriad y lle. Ychydig wythnosau cyn ei marw ganwyd iddi or-or-wyr ac ymddangosodd darlun o honi hi a'i mab, a'i wyres, a'i or-wyres ac or-or-wyr yn y "*Western Mail*" ynghyd ag ychydig o hanes y teulu a Moyddyn Fawr. Cafodd oes hirfaith a daliodd ei synwyrau'n dda hyd y terfyn. Medrai ddarllen heb gymorth chwydd-wydrau i'r diwedd. Hoffai fynd dros yr hen amser a son am hen gyfoedion ac arferion dyddiau ieuenctyd a chanol oed. Yr oedd yn gwmni diddan ac o yspryd hynaws a charedig a hoffid hi yn fawr gan ei chydnabod yn herwydd hynny. Gadawodd fab, merch, wyrion ac or-wyrion a nifer o berthynasau ereill i gwyno ei cholli.

Ar y 10fed o Chwefror, yn 71 oed, bu farw Thomas Jones, gynt o Gaedabowen, yn nhy ei chwaer yng nghyfraith, Talgrwn. Bu'n wael am hir amser. Gadawodd i alaru ar ei ol, briod a thri o blant, ynghyd a nifer o berthynasau agos. Claddwyd ei weddillion dydd Llun canlynol ym mynwent Eglwys Llanwenog, pryd y daeth nifer liosog iawn o berthynasau a chyfeillion ynghyd i dalu iddo'r gymwynas olaf. Gweinyddwyd ar yr achlysur—yn y ty gan y Parchn. D. Morris Jones, T. Jones (Glasfryn),

a D. Evans; yn yr Eglwys gan y Parch. D. Thomas, M.A., curad, a'r Parch. D. Thomas (gynt o Dycam).

CHWEF. 10, David Evans, Ffynnon-llewelyn, Llandysul, yn 78 oed. Claddwyd yr hyn oedd farwol o hono ym mynwent Pantdefaid y Llun dilynol. Gwasanaethwyd yn y ty a phregethwyd yn y capel gan E. O. Jenkins. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan T. O. Williams, M.A. a T. A. Thomas. Yr oedd yn adnabyddus i gylch eang a chafodd angladd parchus a lluosog iawn. Gadawodd i wylo ei golli ddeg o blant, tri brawd, tair chwaer a nifer luosog o wyrion a pherthynasau ereill. Collodd ei briod tua 35 o flynyddoedd yn ol ac er fod deg o blant—a'r mwyafrif o'r rhai hynny yn ieuainc iawn—wedi eu gadael ar ei law llwyddodd i'w dwyn i fyny'n rhyfeddol a chafodd y fraint o'u gweld bob un yn gwneud cartref iddynt eu hunain. Yr oedd yn ddyn o ysbryd tawel a diddig a chredwn fod hynny wedi bod yn gynhorthwy mawr iddo wrth fagu ei deulu. Ar yr aelwyd er mae efe oedd y tad, eisteddai ynghanol y plant fel un o honynt—yn fwy fel brawd hynaf, fel un o honynt hwy nag fel y pen teulu. Drwy'r ysbryd diddig yma enillodd ymddiriedaeth ei blant a serch y gwasanaeth-ddynion. Elfen arall amlwg yn ei fywyd oedd ei barodrwydd i wneud cymwynas. Yr oedd gwneud cymwynas yn beth wrth fodd ei galon. Yr oedd yn aelod o eglwys Llwynrhydowen a chredwn ei fod yn un ag oedd yn cael blas ar wasanaeth crefyddol. Bellach mae ei le yn wag.

*(O ddiffyg gofod, bu rhaid gadael allan rai Marwgofion hyd y rhifyn nesaf.)*

# *Nodion yr Eglwysi.*

AR Sul cyntaf y flwyddyn cafwyd Cwrdd diddorol ym Mrondeifi a hwnnw'n cael ei gynnal gan y gynulleidfa a chyda llaw y mae'r gynulleidfa'n cynnal cwrdd felly unwaith y mis ond fod y cwrdd hwn yn eithriadol. Yr oedd yr ysgoldy'n orlawn a chafwyd rhaglen ddiddorol o ganu ac adrodd a rhannwyd gwobrau'r Ysgol Sul gan yr Henadur David Davies, yn absenoldeb Mr. Tom Jones, Arolygydd yr Ysgol Sul. Nodwyd hefyd fod rhai wedi cadw am dymor hir—Mr. David Jones, Tanybryn wedi cadw saith mlynedd ac Evan David Davies, Peterwell Forge wedi cadw naw mlynedd heb golli ond dau neu dri Sul. O na buasai yma ychwaneg o'u tebig. Ar yr ail ddydd Mercher yn Ionor cafwyd gwledd o de, ac y mae diolch yr Ysgol Sul i Mr. Tom Jones, Lester House am ddwyn y draul a rhoddi inni wledd ardderchog. Yr oedd yma hefyd Xmas Tree a rhodd i bob aelod tan bedair ar ddeg oed. Wedyn cafwyd cyngerdd adloniadol a difyr y treuliwyd yr amser.

Y GRAIG A GELLIONNEN.—Yn yr Ysgoldy, nosau Mercher, Rhagfyr 22, a Ionawr y 12, cynhaliwyd dau gyfarfod, yn y cyntaf "Hanes yr Iesu," i'r plant gan y Gweinidog, gyda darluniau ar y llusern gan Mri. Hopkin Jones ac Arthur Williams. Yn yr ail, cyfarfod cystadleuol. Mr. Rees yn arwain. Mr. Morgan, Clydach yn beirniadu; a Miss Annie Morgan yn cyfeilio. Eto'n y Graig, nos Nadolig, dan arweiniad y Parch. D. G. Rees, cafwyd cyngerdd adloniadol gyda rhaglen dda. Cyfeiliwyd gan Mri I. E. Hopkin, W. J. Bowen a D. W. Thomas, Gelli.

Hefyd yn y Graig, nawn a nos Sul, Chwefror 6, caed cyrddau chwarterol yr Ysgol Sul, ac yr oedd defnyddiau y rhaglenni yn rhagorol, a graen ar y llafur. Mr. John W. Bowen yn arwain y prynhawn, a'r Gweinidog yr hwyr. Cyfeiliwyd gan Mri. H. W. Morgan, William J. Bowen a I. E. Hopkin.

*J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.*

**JUST PUBLISHED.**

*Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.*

THE AUTHOR OF

# NEARER, MY GOD, TO THEE

**(SARAH FLOWER ADAMS)**

**By H. W. STEPHENSON, M.A.**

*The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."*

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

**Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2**

---

# Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

**WEDDING BOUQUETS; etc., Rose Trees, Tomato Plants, Begonias, Geraniums, Lobelias, Palms, Ferns, etc.**

# HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875)

**Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist,**

**CARMARTHEN.**

Telegrams—COYSH, Carmarthen.

---

**IT WILL PAY YOU TO SEE OUR HUGE SELECTION OF WINTER GOODS BEFORE YOU BUY. . . .**

# E. LLOYD JONES

## Bradford House, Llandyssul.



## A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through 1900 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

# MIDLAND BANK

LIMITED

*HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C. 2*

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.